*Rheoliadau*

## Rheoli Llygredd Amaethyddol

# Taflen Wybodaeth – Storio Silwair

Cyflwynwyd Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 i leihau faint o lygrwyr a gollir o amaethyddiaeth i'r amgylchedd trwy osod rheolau ar gyfer rhai arferion amaethyddol.

Cymerodd y rheoliadau le'r safonau Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol (SSAFO) oedd yn bodoli ar gyfer gwneud silwair, storio elifiant silwair a systemau storio silwair ar 1 Ebrill 2021, sy'n berthnasol i bob fferm. Yn ymarferol, nid yw'r gofynion wedi newid, ond maent yn awr hefyd yn ofynnol o ran trawsgydymffurfio.

## Parthau diogelwch silwair

- Rhaid i silwair sy'n cael ei storio mewn seilo beidio cael ei wneud na'i storio o fewn 10 metr i unrhyw gorff o ddŵr.
- Rhaid i silwair mewn byrnau fod wedi ei selio mewn pilen neu fag anhydraidd ac ni ddylai gael ei wneud, ei storio, ei agor na'i ddadlapio o fewn 10 metr i unrhyw gorff o ddŵr.
- Rhaid i silwair sy'n cael ei storio ar gae beidio cael ei wneud na'i storio o fewn 50 metr i 'gwrs cyflenwad dŵr gwarchodedig'. Rhaid i chi hefyd hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru 14 diwrnod cyn i'r safle ar gae gael ei ddefnyddio.

## Rheoli elifiant silwair

- Rhaid bod yn ofalus wrth gasglu a storio elifiant silwair heb achosi llygredd.
- Gall elifiant silwair gael ei ddefnyddio i'w borthi i dda byw neu, ar ôl ychwanegu dŵr ato, gellir ei chwalu ar dir amaethyddol fel gwrtaith. Bydd yr elifiant silwair hefyd yn ddarostyngedig i'r rheoliadau ar storio a chwalu tail organig sydd â llawer o nitrogen ynddo.

## Gofynion adeiladu storfeydd silwair

- Nid oes angen i chi storio *silwair* mewn byrnau (wedi ei lapio neu mewn bag) ar lawr wedi ei adeiladu'n arbennig, ond rhaid i chi sicrhau, os bydd yn cael ei gadw'n uniongyrchol ar y llawr nad yw'n colli elifiant i ddŵr.
- Rhaid i chi sicrhau bod unrhyw system storio silwair yn bodloni gofynion adeiladu'r rheoliadau.
- Gall Cyfoeth Naturiol Cymru gyflwyno rhybudd yn gofyn am weithredu i wella'r darpariaethau sy'n bodoli pan fydd yn ystyried bod risg sylweddol o lygredd.

## Adeiladu neu addasu storfa silwair

- Os bydd arnoch angen adeiladu storfa neu seilo newydd, neu ehangu neu ailadeiladu storfa sy'n bodoli yn sylweddol, rhaid rhoi lleiafswm o 14 diwrnod o rybudd i Gyfoeth Naturiol Cymru yn ysgrifenedig <u>cyn</u> dechrau'r gwaith adeiladu.

Gellir gweld canllawiau manwl yn [llyw.cymru/rheoli-tir](llyw.cymru/rheoli-tir)